**Cronfa Gynnydd Synod Cymru Wales**

# Enghraifft o Ddisgrifiad o Brosiect Cenhadu neu Estyn Allan ar gyfer gwneud cais am arian o Gronfa Gynnydd y Synod

**Nod y Prosiect:** Y nod yw ymestyn allan gyda'r Efengyl at blant a phobl ifanc yn ein cymuned.

Amcan 1: Darparu addoliad cyfeillgar i blant a theuluoedd yn rheolaidd

Amcan 2: Ymgysylltu â'r plant a'r rhieni yn y ddwy ysgol gynradd leol

Amcan 3: Ymestyn allan at bobl ifanc yn ein heglwys a'n cymuned gyda gweithgareddau y mae arnynt eisiau eu mwynhau.

**Gweithgareddau ar gyfer pob Amcan:**

Amcan 1: Darparu Llan Llanast unwaith y mis; cynnig oedfa deulu yn yr awyr agored unwaith y mis.

Amcan 2: Cynnig gwasanaeth ysgol ac Agor y Llyfr i'r ysgolion cyfagos

-Annog aelod o'r gynulleidfa i ddod yn aelod o Lywodraethwyr yr ysgolion

-Dod â phlant i mewn i'r capel drwy gynnig ymweliad ar gyfer gwersi Addysg Grefyddol; cynnig ein hadeilad ar gyfer cyngherddau carolau'r ysgol a digwyddiadau eraill; gwahodd plant yr ysgol i berfformio mewn digwyddiadau yn y capel a'r clwb cinio ac yn y blaen.

Amcan 3: Ailddechrau grŵp plant bach, ar fore lle nad oes eglwys arall yn cynnal un; gan gydweithio'n ecwmenaidd, ymgynghori â rhieni a phobl ifanc er mwyn darganfod ble mae'r bylchau, a chynnig sesiwn wythnosol ar ôl yr ysgol, yn seiliedig ar y gweithgareddau a awgrymir.

**Cynllun Gweithgareddau**

Blwyddyn 1: Sefydlu gweithgor; siarad ag eglwysi lleol, ysgolion, eraill sy'n darparu gweithgareddau i bobl ifanc; recriwtio gweithiwr lleyg newydd; cychwyn y gweithgareddau cyntaf mewn un ysgol ac addoliad newydd i blant yn y capel. Cyrraedd 250+ o blant drwy'r ysgol a 30+ drwy'r addoliad newydd.

Blwyddyn 2: Ymgysylltu â'r ail ysgol; ailddechrau'r grŵp plant bach; cychwyn addoliad yn yr awyr agored ar gyfer teuluoedd. Cyrraedd 500+ o blant drwy'r ysgol; 30+ drwy addoliad; 30+ drwy weithgareddau newydd.

Blwyddyn 3: Dyfnhau perthnasoedd a pharhau i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr; cychwyn gweithgaredd ar ôl yr ysgol. Cyrraedd 500+ o blant drwy'r ysgolion; 30+ drwy addoliad; 50+ drwy weithgareddau a ddechreuwyd yn ddiweddar neu rai newydd.

**Adnoddau sydd eu hangen**

Gweithiwr lleyg rhan-amser i gyd-drefnu gweithgareddau, recriwtio, hyfforddi a threfnu gwaith gwirfoddolwyr ar gyfer gweithgareddau, ac i ysbrydoli'r aelodau i gefnogi mentrau newydd.

**Cyllideb:**

Costau: Cyflog a chostau cyflogi; teithio a ffôn; hyfforddiant a diogelu; adnoddau ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu cynllunio; gwibdeithiau.

Incwm : Cyfraniad gan yr eglwys gan gynnwys rhoddion/taliadau gan y rhai sy'n cymryd rhan, cyfraniad gan y Gylchdaith; grant bach gan ymddiriedolaeth; grant y Gronfa Gynnydd.